Chwarae Teg

2022

# CYFLWR Y GENEDL

chwaraeteg.com

02920 462 745

@chwaraeteg #SotN

# CYFLWYNIAD

Mae 2022 yn nodi 30 mlynedd ers sefydlu Chwarae Teg, a'n pedwerydd adroddiad *Cyflwr y Genedl*. Ers ein sefydlu, rydym wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion anghyfartaledd rhywedd yn economi Cymru, gyda'r nod o sicrhau Cymru decach lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu. Dros y 30 mlynedd hyn, mae llawer wedi newid.

Mae gennym amddiffyniadau cyfreithiol cryfach ar waith ar gyfer cydraddoldeb, mae gennym Lywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n parhau i flaenoriaethu cydraddoldeb ac rydym wedi gwneud cynnydd da ar fesurau fel cyflogaeth menywod, addysg a lefelau incwm. Serch hynny, fel y gwelir yn ffigyrau adroddiad Cyflwr y Genedl eleni, mae yna lawer i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhywedd yng Nghymru.

Fe wnaeth pandemig Covid-19 barhau i daflu cysgod dros 2021. Ac yn sgil datblygiad yr amrywiolyn Omicron, mae'r pandemig ymhell o fod ar ben. Mae ei effaith ar y ffigurau eleni yn llai amlwg, ond rhaid parhau i fesur effaith Covid-19 yn agos, ac unrhyw fesurau a gymerir i ddiogelu iechyd y cyhoedd, drwy lens rhywedd croestoriadol er mwyn sicrhau fod neb yn gorfod talu pris uwch.

Rhaid i ni hefyd wrando ar y rhybudd a ddaeth yn sgil y pandemig wrth amlygu graddau'r anghydraddoldeb yng Nghymru a'r DU, a sut mae cymaint yn fwy bregus o ran iechyd ac effeithiau economaidd o ganlyniad i'r argyfwng. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb strwythurol hirsefydlog a dwfn yn hanfodol ar gyfer gwytnwch a llesiant Cymru yn y dyfodol.

Mae'r data a gyflwynir drwy gydol yr adroddiad hwn unwaith eto yn creu darlun cymysg i ni. Gwelir cynnydd mewn rhai meysydd – mae cyfran y menywod sy'n gweithio rhan-amser wedi lleihau, gan olygu bod yna botensial i helpu i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau os bydd y duedd hon yn parhau ac os yw o ganlyniad i weithio mewn ffordd fwy ystwyth yn creu opsiynau cyflogaeth. Mae cynrychiolaeth menywod yn y Senedd wedi bod yn gymharol sefydlog a gwelsom y fenyw gyntaf o liw yn cael ei hethol, roedd yn hen bryd wir i hyn ddigwydd. Roedd cynrychiolaeth menywod ymhlith penodiadau cyhoeddus hefyd yn gyson.

Serch hynny, erys rhai materion parhaus. Ehangodd y bwlch cyflog ar sail rhywedd ychydig yng Nghymru eleni, sy'n ein hatgoffa

ni nad yw cynnydd wedi'i warantu. Mae menywod hefyd yn parhau i fod bedair gwaith yn fwy tebygol o gyfeirio at ofal plant fel y rheswm dros fod yn "economaidd anweithgar", fel y'i deellir yn draddodiadol, gan anwybyddu gwerth gwaith di-dâl menywod. Mae cynrychiolaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl ymhlith penodiadau cyhoeddus yn parhau'n isel iawn, ac nid yw'n bosibl o hyd ystyried y data hwn mewn ffordd croestoriadol. Mae menywod yn dal i gael eu tangynrychioli ymhlith arweinwyr busnes ac fel Rheolwyr a Chyfarwyddwyr, ac mae sectorau fel adeiladu a chludiant yn parhau i gael eu gwahanu'n drwm ar sail rhywedd.

Mae'r ffigurau'n fwyaf difrifol yn ymwneud â menywod sydd mewn perygl. Mae menywod yn parhau i fod mewn llawer mwy o berygl o drais, ond er gwaethaf cyllid ychwanegol yn ystod y pandemig, mae gwasanaethau arbenigol yn parhau o dan bwysau ac mae cyfraddau euogfarnu ar gyfer ymosodiadau rhywiol a thrais rhywiol yn annerbyniol o isel. Mae cyfraddau tlodi wedi cynyddu a rhieni sengl sy'n parhau i fod fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi. Er bod nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi lleihau wrth i'r cyfnod clo leihau, mae menywod yn parhau'n fwy tebygol o fod yn derbyn Credyd Cynhwysol, ac yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ac yn hawlio Credyd Cynhwysol.

Mae'r cyd-destun presennol yn cynnig heriau a chyfleoedd i'r rhai sy'n gweithio dros gydraddoldeb. Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar ein bywydau ac yn rhoi pwysau ar gyllid cyhoeddus, ac mae sut a ble rydym ni'n gweithio yn newid wrth i waith anghysbell ac ystwyth ddod yn fwy cyffredin ac mae ein ffocws economaidd yn symud mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, tuag at ddiwydiannau gwyrdd a charbon-sero. Yn wleidyddol, mae heriau hefyd, gyda mwy fyth o ymwahanu rhwng llywodraethau'r DU a Chymru, colli cyllid yr UE a diffyg eglurder ynghylch yr hyn a fydd yn ei ddisodli, a'r "war on woke-ism" fel y'i gelwir sy'n ei gwneud yn llawer anoddach mynd ar drywydd polisïau blaengar sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb.

Mae'r amgylchedd hwn, a'r data a nodir yn yr adroddiad hwn, ond yn gwneud yr angen i barhau i wthio am newid, ac i newid ddigwydd yn gyflymach, yn bwysicach fyth. Ers sefydlu Chwarae Teg 30 mlynedd yn ôl rydym wedi gwneud llawer o gynnydd ond mae mwy i'w wneud i sicrhau'r Gymru werdd, ofalgar a theg sydd ei hangen arnom. Mae ein gweledigaeth yn parhau i fod yn Gymru decach lle mae'r holl fenywod yn cyflawni ac yn ffynnu, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth, busnes, ein chwaer sefydliadau a'n cefnogwyr i sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu cyn i Chwarae Teg droi'n 60 oed.



# RYDYM YN BODOLI I GEFNOGI:

## Menywod yn yr Economi

Creu Cymru lle mae menywod yn cyflawni a ffynnu ym mhob sector ac ar bob lefel o'r economi

## Cynrychiolaeth Menywod

Creu Cymru lle mae menywod yn weladwy ac yn ddylanwadol ym mhob sector o'r economi, cymdeithas a bywyd cyhoeddus

## Menywod mewn Perygl

Creu Cymru lle mae menywod yn cael eu grymuso i wireddu eu potensial, waeth beth yw eu cefndir, eu statws cymdeithasol na'u lleoliad daearyddol

# CROESTORIADOLDEB

Er bod croestoriadoldeb yn rhywbeth yr ydym ni a llawer o rai eraill wedi'i roi wrth wraidd yr hyn a wneir gennym ers nifer o flynyddoedd, mae wedi tyfu mewn amlygrwydd yn ddiweddar, gan ddod yn ganolbwynt llawer cadarnach i Lywodraeth Cymru ac eraill yng Nghymru. Mae'n derm y gellir ei gamddeall, gan fod croestoriadoldeb yn gymhleth ac mae mabwysiadu lens croestoriadol yn anoddach yn sgil heriau data parhaus.

Pan fyddwn yn sôn am sicrhau cydraddoldeb rhywedd, rydym yn bendant bod hyn yn golygu cydraddoldeb i holl fenywod Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ganolbwyntio yn gyntaf ar y rhai sydd fwyaf ar y cyrion; y menywod sy'n wynebu'r rhwystrau a'r anfantais fwyaf. Mae dull croestoriadol yn hanfodol er mwyn gallu gwneud hyn.


Ystyr croestoriadoldeb yw cydnabod y ffordd y mae strwythurau pŵer yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu anghydraddoldebau, gwahaniaethu a gormes. Mae'n ymwneud â deall sut y gall nodweddion fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd ryngweithio'n aml i greu profiadau niferus o anfantais. Nid yw'n fater syml o ychwanegu profiadau gwahanol at ei gilydd. Er enghraifft, bydd profiadau menyw Ddu yn wahanol i brofiadau menyw Wyn a dyn Du, oherwydd y ffordd y mae rhywedd a hil yn rhyngweithio ac yn siapio'u profiadau, eu cyfleoedd a'u canlyniadau.

Mae'n hanfodol sefydlu dull gwirioneddol groestoriadol wrth lunio polisïau. Dull sy'n cydnabod sut mae nodweddion fel rhywedd, hil, ethnigrwydd, ffydd, anabledd, oedran, rhywioldeb a dosbarth yn parhau i ddylanwadu ar fynediad at bŵer, dylanwad, adnoddau a braint.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud, gall data fod yn her o ran croestoriadoldeb, yn enwedig yng Nghymru lle gall grwpiau sampl fod yn fach a lle nad yw data wedi'i ddatgyfuno bob amser ar gael. Felly, mae'n bwysig ystyried sut y gall data ansoddol a phrofiad byw ategu data meintiol er mwyn deall yr heriau sy'n wynebu gwahanol grwpiau o ferched a nodi'r atebion polisi sydd eu hangen i'w goresgyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld symudiadau cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn, gyda gwell dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth sy'n seiliedig ar brofiad byw roi cipolwg sydd wir ei angen ar sut mae penderfyniadau'n effeithio ar wahanol grwpiau, a chreu Uned Ystadegau Cydraddoldebau ac Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil o fewn y llywodraeth i gryfhau tystiolaeth a dadansoddiadau cydraddoldeb. Rhaid i'r gwaith hwn barhau ac mae angen hyfforddiant ac uwchsgilio, fel yr argymhellwyd yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd, gan alluogi pawb sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau am wariant a pholisi cyhoeddus i ymgorffori dadansoddiad cydraddoldeb croestoriadol ym mhopeth a wneir ganddynt.


**ANABLEDD A GWEITHGARWCH ECONOMAIDD 2020-21**

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffenaf 2019-Mehefin 2020 a Gorffennaf 2020-Mehefin 2021



## STATWS CYFLOGAETH YN ÔL RHYWEDD AC ETHNIGRWYDD

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020 a Gorffennaf 2020-Mehefin 2021






Yn ystod y cyfnod clo cyntaf roedd

**72%**

o **famau sy'n gweithio** wedi gweithio **llai o oriau** ac wedi **cwtogi eu henillion** oherwydd **diffyg gofal plant**[1]

Mae

**89%**

o bobl yn bwriadu gweithio mewn ffordd **hybrid** wrth symud ymlaen[2]

## COVID-19

Mae Covid-19 wedi parhau i effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wrth i amrywiolion newydd ddod i'r amlwg, mae'n debygol y bydd hyn yn parhau. Mae'r effaith ar y data wedi bod yn llai difrifol eleni gan fod llawer o sectorau wedi ailagor a bod ysgolion a lleoliadau gofal plant ffurfiol wedi parhau ar agor. Mae'r data economaidd yn awgrymu bod effaith y pandemig yn "siap v", h.y. gostyngiad sydyn ac yna dychwelyd yn gyflym i lefelau cyn y pandemig, er gydag amrywiolion newydd ac aflonyddwch economaidd pellach o bosibl, bydd angen i ni fonitro'n agos a yw hyn yn digwydd dros y misoedd nesaf.

Roedd effeithiau eraill yn fwy amlwg. Yn ein hadroddiad *Jyglo Cyson o Ddydd i Ddydd* a gyhoeddwyd yn 2021, canfyddwyd bod effaith gofal plant ac addysgu gartref ar fenywod wedi bod yn sylweddol, gan effeithio ar eu gallu i weithio a'u hiechyd meddwl.

Gwelsom hefyd newid cyflym, a pharhaol tebygol, ynghylch sut a ble rydym yn gweithio. Mae llawer o fusnesau sydd â rolau swyddfa wedi cadw dull hybrid o weithio, lle mae staff yn rhannu eu hamser rhwng gweithio o bell a gweithio yn y swyddfa. Does fawr yn disgwyl dychwelyd i swyddfeydd yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw'r pandemig ar ben, ac nad yw'r effeithiau hirdymor yn hysbys eto. A fydd y newid hwn o ran sut a ble rydym yn gweithio o fudd i fenywod fel rydym ni'n ei ddisgwyl? Pa effaith fydd Omicron yn ei gael arnom ni? Beth fydd yr effaith hirdymor ar sectorau gafodd eu taro'n galed yn ystod y pandemig, megis iechyd a gofal cymdeithasol, lletygarwch a manwerthu, lle mae menywod yn dominyddu'r gweithlu?

Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol bod effaith Covid-19 ar wahanol grwpiau yn cael ei monitro'n agos. Mae'r angen am bolisi a phenderfyniadau a arweinir gan dystiolaeth a thystiolaeth cydraddoldeb wedi'i ddatgyfuno yn bwysicach nag erioed.

# MENYWOD YN YR ECONOMI

Nid ydym eto wedi cyflawni cydraddoldeb rhywedd yn yr economi. Mae menywod yn dal i brofi rhwystrau nad yw dynion yn eu profi, ac mae ein systemau, ein strwythurau a'n polisïau economaidd yn parhau i ail-greu ac atgynhyrchu anghydraddoldeb. Mae anghydraddoldeb economaidd rhwng menywod a dynion yn deillio o'r gwahanol rolau, sectorau, galwedigaethau a'r mathau o gontractau y mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi ynddynt, a hynny yn ei dro yn cael ei siapio gan y pwysau cynyddol y mae menywod yn aml yn ei wynebu oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

Mae argyfwng Covid-19 wedi cyflwyno heriau digynsail, o ran iechyd y cyhoedd ond hefyd o ran yr economi. Mae data economaidd yn awgrymu bod effaith y pandemig wedi bod yn llai difrifol nag yr ofnwyd, gyda llawer o ddangosyddion yn dychwelyd i lefelau cyn-bandemig.

Gwelwn hefyd effaith uniongyrchol ychydig yn fwy ar weithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth dynion. Fodd bynnag, byddem unwaith eto yn annog pobl i fod yn ofalus wrth ddarllen yr ystadegau hyn gan fod y pandemig yn dal i fod gyda ni. Rydym o bosibl yn edrych ar ragor o aflonyddwch economaidd wrth i sectorau gau, cyfyngiadau ar ble a chyda phwy y gallwn ni gymdeithasu ac wrth i gau a hunan-ynysu effeithio ar ysgolion. Daw'r holl aflonyddwch hwn heb rwyd ddiogelwch y cynllun ffyrlo, a ddiogelodd lawer o swyddi dros y flwyddyn ddiwethaf. Heb rwydi diogelwch digonol ar waith, mae'n debygol y bydd swyddi'n cael eu colli, ac y bydd yn rhaid i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu leihau eu horiau neu o bosibl, adael y gweithle. Bydd yn rhaid i ni gadw llygad barcud ar oblygiadau cydraddoldeb y sefyllfa barhaus a newidiol hon.


Defnyddir y bwlch cyflog ar sail rhywedd yn aml fel dangosydd llinell uchaf o gydraddoldeb yn y gweithle gan ei fod yn dangos effaith anghydraddoldeb yn y farchnad lafur ar incwm cyfartalog. Yn 2021, cynyddodd y bwlch cyflog ar sail rhywedd yng Nghymru o 11.8% i 12.3%, o ganlyniad i gynnydd mwy yng nghyflog fesul awr dynion. Rydym hefyd yn gweld amrywiad sylweddol ar draws gwahanol rannau o Gymru, gan gyrraedd mor uchel â 25% yn Nhorfaen ac mor isel ag 1.9% yng Nghonwy. Mae data bwlch cyflog ar sail rhywedd yng Nghymru yn parhau i fod yn gyfnewidiol, yn rhannol oherwydd maint y sampl, ond mae'n amlwg nad yw'r cynnydd tuag at ddileu anghydraddoldeb incwm yn gyson nac yn gyflym.

Yn gyffredinol, ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyfraddau cyflogaeth na gweithgarwch economaidd i fenywod, er bod hyn yn wahanol mewn grwpiau oedran iau. Menywod 20-24 oed welodd y cynnydd mwyaf mewn gweithgarwch economaidd, i fyny 4.7% ers y llynedd, tra bod y cynnydd mwyaf mewn diweithdra ymhlith dynion a menywod ifanc. Mae'n debygol y bydd angen cymorth ar weithwyr iau a gollodd eu swyddi o ganlyniad i'r pandemig. Mae cyfradd diweithdra ymhlith merched o leiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn uwch nag ymhlith merched gwyn, ac nawr yn uwch na chyn y pandemig.

Mae menywod yn parhau i fod bedair gwaith yn fwy tebygol o gyfeirio at ofalu am deulu neu gartref fel y rheswm dros fod yn economaidd anweithgar. Er bod y mesur "anweithgarwch economaidd" yn parhau i fod yn broblem gan nad yw'n cydnabod gwerth gwaith di-dâl, mae'r ffigwr hwn yn pwysleisio effaith barhaus gofalu ar allu menywod i wneud gwaith cyflogedig. Mae'n debygol hefyd bod cyfrifoldebau gofalu yn effeithio ar y bwlch mwy o ran rhywedd a welwyd mewn patrymau gwaith ymhlith grwpiau oedran hŷn, lle mae menywod yn llawer llai tebygol o fod yn gweithio'n llawn amser o'u cymharu â dynion.


Un newid cadarnhaol eleni yw'r gostyngiad yng nghyfran y menywod sy'n gweithio'n rhan-amser, sydd wedi gostwng tua 3%. Os yw hyn yn ddechrau tuedd, ac yn ganlyniad i fwy o ddefnydd o arferion gwaith ystwyth a chynhwysol yn creu cyfleoedd cyflogaeth, yna gallai hyn chwarae rhan yn y gwaith o leihau'r bwlch cyflog ar sail rhywedd. Bydd angen i ni fonitro'r data hwn yn ofalus y flwyddyn nesaf a thu hwnt i benderfynu os yw'n duedd gadarnhaol. Bydd monitro ymddygiad cyflogwyr yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw gweithio ystwyth yn cael ei ystyried yn rhywbeth i'w ddefnyddio mewn ymateb i'r pandemig yn unig, ond ei fod yn cael ei gydnabod fel ffordd fwy cynhyrchiol a chynhwysol o weithio.

Dim ond pan fydd menywod yn gallu cael mynediad a datblygu mewn gwaith yn yr un modd â dynion y caiff anghydraddoldeb yn yr economi ei ddileu. Mae angen llawer o gamau gweithredu i gyflawni hyn, ond ni ellir anwybyddu effaith cyfrifoldebau gofalu. Rhaid i fuddsoddiad mewn gofal plant gan y llywodraeth, cymorth gyda chostau gofalu gan gyflogwyr a llawer mwy o fabwysiadu arferion gwaith ystwyth a chynhwysol fod yn flaenoriaeth os ydym am weld newidiadau mwy sylweddol yn erbyn y dangosyddion yn yr adran hon o'n hadroddiad Cyflwr y Genedl.



## BWLCH CYFLOG AR SAIL RHYWEDD

Ffynhonnell: ASHE, Dadansoddiad o'r Gweithle, 2021






## BWLCH CYFLOG AR SAIL RHYWEDD, CYMHARIAETH O WEITHWYR 2020-2021

| AWDURDOD LLEOL | 2020 | 2021 | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Y DEYRNAS UNEDIG | 15.5% | 15.4% | -0.1% |
| CYMRU | 11.6% | 12.3% | 0.7% |
| TORFAEN | 27.7% | 25.4% | -2.3% |
| SIR FYNWY | 7.1% | 23.4% | 16.3% |
| SIR Y FFLINT | 18.5% | 21.8% | 3.3% |
| POWYS | 15.4% | 20.9% | 5.5% |
| CASTELL-NEDD PORT TALBOT | 19.0% | 20.7% | 1.7% |
| RHONDDA CYNON TAF | 22.5% | 19.6% | -2.9% |
| CAERFFILI | 8.5% | 18.3% | 9.8% |
| SIR BENFRO | 5.0% | 16.1% | 11.1% |
| PEN-Y-BONT AR OGWR | 4.3% | 16.0% | 11.7% |
| SIR DDINBYCH | 13.0% | 15.9% | 2.9% |
| BRO MORGANNWG | 14.8% | 15.0% | 0.2% |
| CAERDYDD | 13.8% | 15.0% | 1.2% |
| BLAENAU GWENT | 15.0% | 12.6% | -2.4% |
| ABERTAWE | 1.9% | 9.4% | 7.5% |
| CEREDIGION | -13.5% | 9.3% | 22.8% |
| CASNEWYDD | 20.1% | 9.0% | -11.1% |
| MERTHYR TUDFUL | 1.9% | 7.6% | 5.7% |
| SIR GAERFYRDIN | 1.3% | 4.8% | 3.5% |
| GWYNEDD | -7.5% | 3.5% | 11.0% |
| WRECSAM | 12.3% | 3.0% | -9.3% |
| YNYS MÔN | -4.2% | 2.9% | 7.1% |
| CONWY | -7.2% | 1.9% | 9.1% |

**78.4%**
**O DDYNION**

A

**72.4%**
**O FENYWOD**

RHWNG
**16-64**
**OED**
YN


**WEITHREDOL YN ECONOMAIDD**

**Nid oes unrhyw newid sylweddol yn y cyfraddau gweithgaredd economaidd o'u cymharu â'r llynedd*

# GWEITHGARWCH ECONOMAIDD


## CYFRADD GWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021





## CYFRADDAU ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021



## PAM MAE MENYWOD A DYNION YN ECONOMAIDD ANWEITHGAR?


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021





# CYFRADDAU CYFLOGAETH A DIWEITHDRA

## CYFRADDAU DIWEITHDRA YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021



# HUNANGYFLOGAETH


**PA GYFRAN O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N HUNANGYFLOGEDIG?**
Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020 a Gorffennaf 2020-Mehefin 2021







# PATRYMAU GWAITH

**FAINT O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N GWEITHIO RHAN-AMSER?**
Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020 a Gorffennaf 2020-Mehefin 2021



## PATRYMAU GWAITH YN ÔL OEDRAN


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021






## PATRYMAU GWAITH YN ÔL ORIAU

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021,




# CYNRYCHIOLI MENYWOD


Mae cynrychiolaeth menywod yn bwysig. Mae cael lleisiau amrywiol yn yr ystafell yn sicrhau bod gwahanol faterion, a safbwyntiau gwahanol yn cael eu trafod. Mae'r amrywiaeth hon yn hanfodol bwysig mewn bywyd cyhoeddus, lle gwneir penderfyniadau sy'n effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd.

Yn dilyn etholiadau'r Senedd fis Mai 2021, mae 43% o'n Haelodau o'r Senedd yn fenywod. Er bod hyn yn ostyngiad bach o ddiwedd tymor diwethaf y Senedd, mae'n cyd-fynd yn fras â'r ffigurau yn union ar ôl etholiad 2016. Gwelsom y fenyw gyntaf o liw yn cael ei hethol ac roedd yn hen bryd i hyn ddigwydd. Er nad yw'n gwbl gytbwys o ran rhywedd, mae gan y Senedd gyfran uwch o fenywod o hyd nag ymhlith ASau a chynghorwyr Cymru. Fodd bynnag, mae i pa raddau y mae'r Senedd yn gytbwys o ran rhywedd yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar Lafur yn perfformio'n dda yn ogystal â'r blaid sydd wedi gwneud y defnydd mwyaf o fesurau gweithredu cadarnhaol.

Ychydig iawn o newid a welwn o ran llywodraeth leol, a bydd angen i ni aros i weld effeithiau'r etholiadau lleol fis Mai 2022. Mae angen i ni weld llawer mwy o fenywod yn cael eu hethol yn gynghorwyr lleol gyda hyn yn troi'n niferoedd uwch o fenywod mewn cabinetau llywodraeth leol ac fel arweinwyr.

O ran penodiadau cyhoeddus, mae'n gadarnhaol gweld bod cyfran y menywod dal yn sefydlog o gwmpas 50%, ond mae llawer mwy i'w wneud o hyd i gynyddu cyfran y penodiadau o blith pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl. Nid yw'n bosibl o hyd ystyried y data hwn mewn ffordd croestoriadol, mae'n debyg oherwydd y niferoedd isel o bobl a benodir o grwpiau cydraddoldeb eraill, fodd bynnag rhaid gweithredu strategaeth *Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru* mewn ffordd groestoriadol.



# BUSNES A’R GWEITHLE

Rydym yn dal i weld gwahanu sylweddol ar sail rhywedd ar draws sectorau a galwedigaethau yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrannu at y bwlch cyflog ar sail rhywedd gan fod cyflogau uchel ac isel yn nodweddu gwahanol sectorau. Gadawodd hyn fenywod yn fwy agored i effeithiau iechyd ac economaidd y pandemig hefyd.

Ar draws gwahanol sectorau’r economi, does fawr o newid arwyddocaol. Mae’r bylchau mwyaf o ran rhywedd, lle mae dynion neu fenywod yn dominyddu’r gweithlu, i’w gweld mewn amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, adeiladu, cludiant, iechyd ac addysg. Mae’r cynnydd yn y sector TGCh wedi arafu, gyda menywod yn ffurfio tua thraean y gweithlu. Bydd angen ystyried a mynd i’r afael a’r arwahanu hwn yn ofalus, wrth i ni weld mwy o symud tuag at ddiwydiannau a sectorau gwyrdd, er mwyn sicrhau nad yw menywod yn cael eu gadael ar ôl. Heb weithredu, bydd yr arwahanu hwn yn cael ei wreiddio mewn sectorau newydd a rhai sy’n datblygu a bydd menywod yn dal i golli allan ar y cyfleoedd ar gyfer cyflogau uwch a gwell dilyniant a welir yn aml yn y sectorau hyn. Rhaid i lywodraethau, busnesau ac addysgwyr roi blaenoriaeth i fynd i’r afael ag arwahanu ar draws sectorau a galwedigaethau er mwyn sicrhau bod y newid yn cyflymu.

Ychydig o newid a welwn yng nghyfran y menywod sy’n rheolwyr a chyfarwyddwyr, sy’n dal i fod yn 39%.

O ran arweinwyr busnes, mae wedi bod yn anodd dod o hyd i ffynhonnell ddibynadwy o ddata blynyddol felly nid ydym wedi gallu edrych ar gyfran y menywod sy’n arwain y busnesau sy’n tyfu orau neu gyflymaf yng Nghymru eleni. Fodd bynnag, gwelwn mai ond 14% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sy’n cael eu harwain yn gyfan gwbl gan fenywod. Mae hyn yn cyd-fynd â ffigur y DU ond mae’n dangos tangynrychiolaeth sylweddol o fenywod mewn rolau arwain mewn sector sy’n allweddol i berfformiad economaidd Cymru.




## BETH YW’R CYDBWYSEDD O RAN RHYWEDD YN Y SECTORAU YNG NGHYMRU SIC2007?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin


Dynion Menywod

Gwahaniaeth i 2020-2021




## YM MHA ALWEDIGAETHAU Y MAE DYNION A MENYWOD YN GWEITHIO?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021




## PWY SY'N GWNEUD ROLAU UWCH A PHROFFESIYNOL?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021




## ARWEINWYR BUSNES



Ar draws y **DU** mae

**15%**

o fusnesau bach a chanolig yn cael eu harwain gan fenywod[3]



Yng **Nghymru** mae

**14%**

o fusnesau bach a chanolig yn cael eu harwain gan fenywod[4]

# MENYWOD MEWN PERYGL

Mae menywod yn parhau i fod mewn mwy o berygl o dlodi, arwahanrwydd cymdeithasol a chaledi ariannol oherwydd y gwahanol swyddi y mae dynion a menywod yn eu dal mewn gwaith a chymdeithas, ac oherwydd effeithiau diwygio lles.

Maent hefyd yn parhau i fod mewn llawer mwy o berygl o gam-drin, aflonyddu a thrais, rhywbeth a ddaeth yn amlwg yn sydyn ac yn drasig yn 2020 gyda llofruddiaethau Wenjing Lin, Sarah Everard a Sabina Messa - llofruddiaethau yr adroddwyd yn eang amdanynt. Roedd yr achosion proffil uchel hyn yn taflu goleuni ar y casineb yn erbyn menwod a'r trais endemig ac annerbyniol y mae menywod yn parhau i'w wynebu. Mae'r mater hwn yn effeithio ar bob agwedd ar fywydau menywod gan lywio penderfyniadau ynghylch beth i'w wisgo, ble i fynd a sut i gyrraedd yno. Mae bron i dri chwarter y menywod yn y DU wedi profi aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus a dim ond 28% o fenywod yng Nghymru sy'n teimlo'n ddiogel yn cerdded yn y nos.

Menywod yn bennaf sy'n profi cam-drin domestig ac ymosodiadau rhywiol. Mae gwasanaethau arbenigol wedi gweld cynnydd nodedig yn y galw, gyda rhai'n nodi cynnydd o 22%, yn nifer y goroeswyr nad oedd modd eu cefnogi mewn lloches o ganlyniad i ddiffyg capasiti neu adnoddau.

Mae yna ymgynghori ar *Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol* ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys ffocws y mae mawr angen ei ddileu sef trais gan ddynion, mynd i'r afael ag aflonyddu ar y stryd a mynd i'r afael â chasineb yn erbyn menywod fel yr achos sylfaenol o drais yn erbyn menywod. Mae'r ffigurau a amlinellir isod yn dangos faint o waith sydd angen ei wneud o hyd i ddileu trais yn erbyn menywod.

## AFLONYDDU A DIOGELWCH

Mae

**71%**

o fenywod yn y DU wedi profi aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus[5]

Mae

**86%**

o fenywod 18-24 oed wedi profi aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus[6]

Mae


**45%**

o fenywod yn nodi nad oedden nhw'n meddwl y byddai'n helpu fel eu rheswm dros beidio ag adrodd[7]


## DIOGELWCH MEWN MANNAU CYHOEDDUS

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021


Teimlo'n ddiogel iawn yn cerdded ar eu pen eu hunain ar ôl iddi dywyllu




Teimlo'n ddiogel iawn ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu





Teimlo'n ddiogel (gartref, cerdded mewn ardal leol a theithio)




## TROSEDDAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHAM-DRIN DOMESTIG YN ÔL RHYWEDD

Dynion Menywod

Ffynhonnell: ONS, Achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, TABL 8.



## ACHOSION O GAM-DRIN DOMESTIG

Ffynhonnell: SYG, Achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr, y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2021

Mae

**18.3%**

o'r holl droseddau a gofnodwyd yng Nghymru yn gysylltiedig â cham-drin domestig

Mae

**53%**

o'r holl droseddau trais yn erbyn menywod a gofnodwyd yn gysylltiedig â cham-drin domestig

Mae

**73%**

o'r holl ddioddefwyr cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn fenywod

## GALW AM WASANAETHAU CYMORTH LLOCHES, CYMUNEDOL A THRAIS RHYWIOL YNG NGHYMRU

Ffynhonnell: Adroddiad Cyflwr y Sector Cymorth i Ferched Cymru 2021

Cynnydd o

**22%**

yn nifer y goroeswyr nad oedd modd eu cefnogi mewn lloches oherwydd diffyg capasiti neu adnoddau

Rhoddodd gwasanaethau cymorth wedi'u lleoli mewn lloches gefnogaeth i

**283**

**o blant y chwarter**

Derbyniodd gwasanaethau yn y gymuned gynnydd o

**23%**

mewn atgyfeiriadau

Gwelodd gwasanaethau yn y gymuned gynnydd o

**12%**

yn nifer y goroeswyr nad oedd modd eu cefnogi oherwydd problemau adnoddau a chapasiti

Mae pandemig COVID-19 eisoes wedi arwain at:

Gynnydd o

**22%**

mewn cysylltiadau gan oroeswyr i linell gymorth Byw Heb Ofn

Cynnydd o

**43%**

yn nifer y bobl eraill sy'n cysylltu â llinell gymorth Byw Heb Ofn


**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**
**0808 80 10 800 (cafodd /text)**

## TRAIS RHYWIOL

Mae

**93%**

o droseddau rhyw yn cael eu cyflawni yn erbyn menywod[8]



Cafodd

**74,995**

o bobl gymorth arbenigol Rape Crisis yng Nghymru a Lloegr[9]

Mae

**90%**

o ddefnyddwyr gwasanaeth Rape Crisis yn fenywod

Mae

**23%**

o ddefnyddwyr gwasanaeth Rape Crisis yn Bobl Dduon neu Leiafrif Ethnig

Mae

**32%**

o ddefnyddwyr gwasanaeth Rape Crisis yn anabl

# TLODI

Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru wedi bod yn ystyfnig o uchel ers dros ddegawd ac fel yr ofnwyd, mae'r pandemig wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau tlodi. Mae cysylltiad agos rhwng perygl menywod o dlodi a'u sefyllfa yn y farchnad lafur ac yn y cartref. Fel ail enillwyr, neu ofalwyr cynradd, mae incwm annibynnol llawer o fenywod yn gyfyngedig, sy'n olygu eu bod yn agored i lithro i dlodi os bydd perthynas yn chwalu. Maent yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn rolau rhan-amser, â chyflog isel ac yn aml mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd o ran a ddylid gweithio neu ymgymryd â'r prif gyfrifoldeb dros ofalu am eu plant.


Mae data eleni'n dangos mai rhieni sengl yw'r grŵp sydd â'r risg uchaf o fyw mewn tlodi o hyd, gyda 46% o aelwydydd yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae bod yn ddi-waith neu weithio'n rhan-amser hefyd yn cynyddu'r risg o fyw mewn tlodi.

Mae'r darlun llawn o dlodi menywod yng Nghymru yn dal i fod wedi'i guddio i raddau helaeth gan fesurau diffygiol o ran tlodi yn y cartref. Felly, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth, ochr yn ochr â data ystadegol, i brofiad byw menywod mewn tlodi pan fydd polisïau a rhaglenni'n cael eu cynllunio a'u gwerthuso.



## MWY O BERYGL O WYNEBU TLODI


Ffynhonnell: Stats Cymru, HBAI, 2020: Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl math o deulu 2016-17 i 2018-19 a 2017-18 i 2019-20



## PATRYMAU GWAITH A THLODI

2020 | 2019


Ffynhonnell: Stats Cymru, HBAI, 2020: Pobl mewn tlodiincwm cymharol yn ôl math o deulu 2016-17 i 2018-19 a 2017-18 i 2019-20




Mae

**23%**

o **aelwydydd** yng Nghymru yn byw mewn **tlodi incwm** cymharol[10]




gweithwyr **rhan-amser** yng Nghymru

## NEWIDIADAU I NAWDD CYMDEITHASOL A LLES


Mae'r system nawdd cymdeithasol i fod i gynnig rhwyd ddiogelwch i'r rhai nad ydynt yn gallu gweithio, y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor a'r rhai nad yw eu hincwm yn darparu digon i fyw arno. Yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig gwelsom fuddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau gyda'r nod o gefnogi'r rhai nad oedd yn gallu gweithio oherwydd y cyfnodau clo, drwy'r cynllun Ffyrlo a'r cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth. Roedd y rhaglenni hyn, er nad oeddent yn berffaith, yn cynnig cymorth ariannol hanfodol i lawer.

Nid yw ein system nawdd cymdeithasol o ddydd i ddydd yn elwa o fuddsoddiad o'r fath. Mae Credyd Cynhwysol (CC) yn parhau i fod yn broblem, yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb rhywedd. Er bod nifer gyffredinol y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi gostwng eleni wrth i lai o sectorau ddal i fod ar gau, gwelwn mai menywod yw mwyafrif yr hawlwyr CC yng Nghymru o hyd. Yn arbennig, mae menywod yn fwy tebygol o fod mewn gwaith **ac yn** hawlio CC, arwydd pellach o'r pwysau ariannol a grëir gan gyflog isel a gwaith rhan-amser ymhlith menywod.

### NEWID YN NIFER Y BOBL SY'N DERBYN CC

Dynion | Menywod

Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau drwy Stat-Xplore





Mae

**55%**

o'r rhai sy'n hawlio **Credyd Cynhwysol** yng Nghymru yn **fenywod**

Mae




o'r menywod sy'n hawlio **Credyd Cynhwysol** yng Nghymru **mewn gwaith**

Roedd 2021 yn flwyddyn arall o heriau digynsail i bob yr un ohonom, gyda'r pandemig yn parhau i lywio sawl agwedd ar ein bywydau. Cawsom etholiad yng Nghymru, gan ddychwelyd gweinyddiaeth Lafur sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol a newid hinsawdd, a dechreuom ddeall sut y gallai'r pandemig lywio'r ffordd yr ydym yn trefnu gwaith yn y dyfodol.

Ar ddechrau 2022, mae gennym nifer o gyfleoedd a heriau i'w hystyried yn ein hymgais am gydraddoldeb rhywedd. Mae gennym gyd-destun gwleidyddol gwahanol yng Nghymru, lle mae canlyniadau cyfartal yn parhau i fod yn ganolbwynt craidd i'r llywodraeth a'r Senedd, mae diwygio etholiadol yn rhoi cyfle i sicrhau Senedd gytbwys ac amrywiol ar sail rhywedd yn y dyfodol ac mae'r llywodraeth a busnes yn cydnabod gwerth arferion gwaith mwy ystwyth a chynhwysol. Mae'r ffocws angenrheidiol ar symud i economi werdd hefyd yn gyfle i ailddychmygu sut y dylai ein heconomi edrych a sut y dylid mesur llwyddiant. Mae gan ail-feddwl radical am sut y gallwn ni ddarparu economi werdd, gofalgar a theg y potensial i drawsnewid bywydau menywod.

Fodd bynnag, mae'r data a gyflwynwyd yn adroddiad *Cyflwr y Genedl* eleni'n dangos maint yr her yr ydym yn dal i'w hwynebu. Er bod effaith economaidd Covid-19, hyd yma, wedi bod yn llai difrifol nag yr ofnwyd, bydd angen i ni sicrhau bod hyn yn parhau wrth i ni ddechrau ar gyfnod newydd o ddelio â'r pandemig. Mae'r cynnydd tuag at gydraddoldeb rhywedd yn araf ac ymhell o fod wedi'i warantu – yn erbyn llawer o'n dangosyddion newid ymylol yn unig a welwn o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2023, byddwn yn cyhoeddi ein pumed adroddiad *Cyflwr y Genedl*, lle byddwn yn edrych yn ôl dros y pum mlynedd diwethaf i bennu pa dueddiadau sy'n dod i'r amlwg neu beidio.

Mae angen gweithredu mewn sawl maes er mwyn sicrhau bod pob menyw yn mwynhau canlyniadau teg, ac mae'r galwadau a nodir yn ein *Maniffesto ar gyfer Cydraddoldeb Rhywedd yng Nghymru* yn darparu map ffordd pwysig tuag at gydraddoldeb rhywedd. Yr hyn sy'n deillio o ddata eleni, yw bod dau fater yn parhau i fod yn hollbwysig - gwaith a gofal di-dâl, ac aflonyddu, cam-drin a thrais. Hyd nes yr ymdrinnir â'r materion hyn, nid oes modd cael cydraddoldeb. Dyna pam, wrth i Chwarae Teg ddathlu 30 mlynedd, mai dyma fydd y ddau fater canolog i'n hymgyrchu, gan weithio gyda chwaer sefydliadau, y llywodraeth, busnes a chefnogwyr i sbarduno'r newid sydd angen i ni weld.

Ni fydd unrhyw un actor yn gallu mynd i wraidd achosion sylfaenol y materion hyn. Bydd angen i'r Llywodraeth ystyried sut a ble y mae'n buddsoddi arian a sut y gall polisi cyhoeddus ysgogi newid yn fwy effeithiol; rhaid i fusnesau ystyried sut y gallant drefnu gwaith yn well er mwyn cefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a pha bolisïau ac arferion sydd eu hangen er mwyn dileu aflonyddu yn y gweithle; a bydd angen i gymdeithas sifil ystyried sut y gallwn ni gydweithio'n well mewn hinsawdd heriol a gwleidyddol, i gefnogi grwpiau ymylol yn effeithiol ac ymgyrchu dros newid.

Yng Nghymru, mae'r llywodraeth, y gymdeithas sifil a busnes wedi ymrwymo'n gryf i fynd i'r afael â chydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, ond heb fawr ddim newid mewn mesurau allweddol ar gyfer cydraddoldeb rhywedd, yr her i bob yr un ohonom yw sut rydym am droi geiriau'n weithredoedd.

# NODIADAU I GLOI


1 Grŵp Cyllideb Menywod, Gofal Plant, Rhywedd a Covid-19, Tachwedd 2020.

2 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/adhocs/13618coronaviruscovid19andfutureworkingfromhomeplansaugust2021

3 House of Commons Library (2021) Business Statistics

4 Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach 2019 drwy Lywodraeth Cymru

5 UN Women https://www.unwomenuk.org/site/wp-content/uploads/2021/03/APPG-UN-Women-Sexual-Harassment-Report_Updated.pdf

6 UN Women https://www.unwomenuk.org/site/wp-content/uploads/2021/03/APPG-UN-Women-Sexual-Harassment-Report_Updated.pdf

7 UN Women https://www.unwomenuk.org/site/wp-content/uploads/2021/03/APPG-UN-Women-Sexual-Harassment-Report_Updated.pdf

8 ONS – https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/domesticabuseprevalenceandvictimcharacteristicsappendixtables

9 Ystadegau Rape Crisis 2020-21 – https://rapecrisis.org.uk/get-informed/rcew-statistics/

10 Llywodraeth Cymru https://gov.wales/relative-income-poverty-april-2019-march-2020-html



chwaraeteg.com

02920 462 745

@chwaraeteg #SotN